**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Shaun James Redmond, Alun Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Mr Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig),<br>Mrs. G. Anest Frazer (yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Strategol) (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau) (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitemau 4 a 5),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffiths (Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau), Llinos M. Huws (yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Gwasanaethau Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant), Bob Parry OBE FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd R. Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Materion Corfforaethol). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Richard Owain Jones, J A Roberts |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mrs. Anest G. Frazer i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor fel cynrychiolydd Yr Eglwys yng Nghymru.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Dylan Rees yn eitem 4 fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Bodffordd.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Alun Roberts gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Biwmares.

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol gan y Cynghorydd Nicola Roberts yn eitem 4 gan ei bod yn aelod o Gyrff Llywodraethu Ysgol y Graig, Llangefni ac Ysgol Gynradd Talwrn.  Dywedodd hefyd ei bod yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl yn Ysgol y Graig.

## 2 ENWEBIADAU I FYRDDAU A PHANELAU – PANEL SGRIWTINI ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas ag enwebiadau i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Nodwyd bod y Cynghorwyr John Arwel Roberts ac Alun Roberts wedi eu henwebu i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2017 ond ‘roedd angen enwebu dau aelod etholedig arall i wasanaethu ar y Panel hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts ei bod hi o'r farn nad oedd yn briodol iddi roi ei henw ymlaen i gael ei henwebu ar gyfer y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion gan fod ganddi blentyn sy'n mynychu un o'r ysgolion a fydd yn cael eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorwyr Richard Griffiths a Shaun Redmond fel dau aelod etholedig pellach o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

## 3 MONITRO CYNNYDD - CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau) mewn perthynas â'r uchod.

Dygodd Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at y prif argymhellion yn adroddiad AGGCC a gyhoeddwyd ar 7 Mawrth, 2017 ar flaenoriaethau Gwasanaethau Plant yr Awdurdod. Mae'r awdurdod wedi rhoi’r trefniadau canlynol ar waith mewn ymateb i’r casgliadau a’r argymhellion.

- Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig, yn ymgorffori pob un o argymhellion Adroddiad Arolygu AGGCC;
- Sefydlwyd trefniadau Rheoli Prosiect newydd, gyda Grŵp Gwella mewnol o Swyddogion yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli a’r Pwyllgor Gwaith;
- Sefydlwyd Panel newydd o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd yn ddiweddar, a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Dywedodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau) ei fod yn galonogol bod recriwtio staff wedi gwella dros y misoedd diwethaf gyda 7 allan o 8 swydd Arweinydd Ymarfer wedi eu llenwi'n llwyddiannus. Nododd ymhellach y gobeithir medru rhyddhau staff asiantaeth erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn trosglwyddo i staff sydd newydd gymhwyso ac sy'n newydd i'r gwasanaeth. Un o nodau'r gwasanaeth yw medru nodi problemau yn gynnar o fewn teuluoedd bregus a rhoi cefnogaeth iddynt yn llawer cynharach. Ychwanegodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant fod gwaith partneriaeth wedi gwella'n fawr ac yn arbennig o ran Heddlu Gogledd Cymru yn rhannu gwybodaeth am deuluoedd a phlant bregus.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor: -

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at leoliadau 'all-sirol' ar gyfer plant a chostau'r fath leoliadau. Nododd y Pwyllgor hefyd y gallai lleoli plentyn y tu allan i'r sir olygu pwysau emosiynol ychwanegol ar y plentyn / person ifanc. Ymatebodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant fod Panel mewnol wedi ei sefydlu o fewn y Gwasanaeth i adolygu lleoliad pob plentyn / person ifanc i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn y lleoliad mwyaf priodol. 'Roedd adolygiad / asesiad yn cael ei wneud gyda'r nod o ddod â phlant / pobl ifanc yn ôl i'r Ynys a chynyddu opsiynau ar gyfer lleoliadau i blant.
- Holodd y Pwyllgor a oedd pecynnau cynefino a hyfforddi ar gael ar gyfer gweithwyr sydd newydd gael eu recriwtio. Ymatebodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant trwy ddweud bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor i ddatblygu Strategaeth Gweithlu, i drefnu recriwtio yn dilyn yr ailstrwythuro a hefyd i drefnu pecyn cynefino a chymorth i gefnogi gweithwyr newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad cynnydd.**

## 4 MODERNEIDDIO YSGOLION - YMGYNGHORIAD STATUDOL ARDAL LLANGEFNI

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Amlinellwyd argymhellion yr adroddiad i'r Pwyllgor gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg ac eglurodd y gwahaniaethau rhwng y ddau Opsiwn a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Ymgynghoriad Statudol yn Ardal Llangefni.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, oherwydd y pwysau ar yr ysgolion yn nhref Llangefni, fod penderfyniad wedi ei wneud i gynnwys y dalgylch hwn o fewn Band A yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Mae Ysgol y Graig, ac yn enwedig Ysgol Corn Hir, eisoes yn fwy na llawn. Cyfeiriodd at y broses ymgynghori a'r ymatebion a gafwyd o ddalgylch Llangefni gan randdeiliaid Ysgol Henblas, Ysgol Esceifiog, Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i’r adroddiad a chodwyd y materion canlynol: -

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y cyhoeddiad a wnaed yn ddiweddar gan Ms Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, o ran y rheidrwydd ar gynghorau, dan y rheolau newydd, i ystyried yr holl opsiynau ymarferol yn lle cau ysgolion, a hynny er mwyn cefnogi ysgolion gwledig. Holodd y Pwyllgor beth fyddai effaith y cyhoeddiad hwnnw ar raglen moderneiddio ysgolion y Cyngor. Eglurodd y Pennaeth Dysgu fod argymhellion yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cael sylw eisoes yng nghanllawiau proses moderneiddio ysgolion yr Awdurdod.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at ymatebion y gall cau ysgol gael effaith niweidiol ar bentrefi a chymunedau. Holwyd a oedd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi ei gynnal i nodi ardaloedd o fewn y cynllun moderneiddio. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu fod yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn rhan o waith cefndirol y broses ac y bydd angen gwneud gwaith manwl i bwyso a mesur y newidiadau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn eu hawgrymu o fewn y Côd newydd ar gyfer Moderneiddio Ysgolion.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at ffederaleiddio ysgolion a holodd am effaith hynny ar ysgolion. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu bod 12 o ysgolion yn Ynys Môn o fewn categori ysgolion ffederal oherwydd yr anawsterau wrth recriwtio Penaethiaid yn gyffredinol ar yr Ynys.
- Holodd y Pwyllgor ai lleihau costau i'r Awdurdod sy’n gyrru’r rhaglen moderneiddio ysgolion. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu trwy ddweud bod Estyn yn herio a yw awdurdodau yn mynd i'r afael â lleoedd gweigion mewn ysgolion. Ystyrir bod amgylchedd ysgol fodern yn well ar gyfer darparu’r cyfleoedd addysg gorau i blant.

Yn dilyn trafodaethau pellach: -

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Mai opsiwn B yw’r opsiwn gorau a fydd yn cynnwys: -**
    - **Opsiwn 3 - sef adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd;**
    - **Opsiwn 8 - addasiadau i Ysgol Esceifiog, Gaerwen;**
    - **Opsiwn 7 - bydd angen ymgynghoriad pellach ar addasu Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn;**
    - **Opsiwn 9 - addasiadau i Ysgol Henblas, Llangristiolus.**

## 5 MODERNEIDDIO YSGOLION - RHAGLEN AMLINELLOL STRATEGOL - BAND B (2019-2024)

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael ar ddeall bod camgymeriad gweinyddol wedi digwydd wrth gyflwyno'r papurau ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod hwn. Gofynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Swyddogion i'r pwyllgor ystyried adroddiad diwygiedig gyda mân-newidiadau yn y cyfarfod hwn oherwydd gofynion Llywodraeth Cymru bod raid i Awdurdodau Lleol ddiweddaru eu cynigion Band B a chyflwyno eu Rhaglenni Amlinellol Strategol diwygiedig erbyn 31 Gorffennaf 2017. Yn dilyn trafodaethau, cafwyd pleidlais a phenderfynwyd trafod yr adroddiad diwygiedig yn y cyfarfod. Rhoddwyd digon o amser i'r Pwyllgor ddarllen y mân-newidiadau i'r adroddiad cyn ystyried y mater.

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod Rhaglen Amlinellol Strategol yr Awdurdod wedi ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr at 2013. Rhannwyd y papur strategol yn 4 Band, sef Band A (2013-2019), Band B (2019-2022), Band C (2022- 2025) a Band D (2025-2028). Ers y Rhaglen wreiddiol (2013), mae ffactorau megis newidiadau demograffig a chapasiti arweinyddiaeth wedi newid yn sylweddol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd Band B am gyfnod o 5 mlynedd a bydd yn parhau tan 2019-2024. Oherwydd bod y ddwy ysgol gynradd yn Llangefni yn llawn, a'r angen i wneud newidiadau i Ysgol y Graig, ni fydd y cyllid o fewn Band A yn ddigon i roi sylw i'r holl ofynion yn ardal Llangefni ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo'r Awdurdod i gynnwys ardal Llangefni yn Band B. Dywedodd y Pennaeth Dysgu hefyd bod dalgylchoedd Amlwch, Lligwy a Seiriol wedi eu cynnwys o fewn y Rhaglen Band B.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Lewis Davies (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini) wedi gofyn i gael siarad ar y mater hwn.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies fod yr ail adroddiad a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi peri pryder mawr i'r aelodau lleol ar gyfer ardal Seiriol. Cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol yn ddiweddar yn y tair ysgol yn yr ardal h.y. Biwmares, Llandegfan a Llangoed, a bu'r broses yn gadarnhaol ac yn heriol hefyd ar adegau. Mae Cyngor Tref Biwmares hefyd wedi mynegi pryderon mawr mewn perthynas â'r mater hwn ac wedi awgrymu bod penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud i gau rhai ysgolion yn yr ardal. Fodd bynnag, mae swyddogion wedi rhoi sicrwydd yn gyhoeddus nad oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud o ran pa ysgolion fydd yn cau. Mynegodd ei bryderon dwys bod dogfen sensitif wedi'i chyhoeddi'n gyhoeddus a oedd yn awgrymu bod un ysgol am gau yn ardal Seiriol. Dywedodd ei fod wedi sicrhau Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r 3 ysgol gynradd yn ardal Seiriol y byddai'n mynychu'r cyfarfod hwn i fynegi pryderon. 'Roedd y Cynghorydd Lewis yn credu y dylid atal y broses ymgynghori yn ardal Seiriol am y tro. Dywedodd ymhellach

fod y Prif Weithredwr wedi datgan y byddai'n mynychu cyfarfod cyhoeddus ym Miwmares pan fydd y mater yn cael ei drafod.

Ymatebodd y Prif Weithredwr y byddai'n gwneud ei orau glas i fynychu'r cyfarfod cyhoeddus a nodwyd bod y Pennaeth Dysgu hefyd wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones fel yr Aelod Portffolio ar gyfer Dysgu ei fod yn ymddiheuro bod y ddogfen anghywir wedi ei chyflwyno yn y lle cyntaf i'w hystyried gan y cyfarfod hwn. Dywedodd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i gau unrhyw ysgol yn ardal Seiriol ar hyn o bryd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod hon yn Rhaglen Amlinellol Strategol y mae'r Awdurdod yn gofyn am £18 miliwn ar ei chyfer gan Lywodraeth Cymru tuag at y rhaglen Band B ac ailadroddodd nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud mewn perthynas â chau ysgolion.

Rhoddodd y Pwyllgor Gwaith sylw i'r adroddiad a **PHENDERFYNWYD argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn: -**

- **Ystyried moderneiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a hefyd ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un campws neu ysgolion 3-16/3-18.**
- **Ystyried cyfraniad gan yr awdurdod lleol o tua £18 miliwn tuag at Fand B y rhaglen**
- **Ystyried y saith prif opsiwn fel yr amlinellir yn yr achos economaidd ar gyfer y Rhaglen Amlinellol Strategol, a disgwyl dadansoddiad manwl pellach yn yr achosion busnes manwl sydd i ddilyn.**
- **Parhau i gefnogi'r achos dros newid a gyflwynwyd drwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion, a'r gyrwyr ar gyfer newid.**

**Y CYNGHORYDD ALED JONES M.**
**CADEIRYDD**

1